# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar yr 13eg o Ebrill 2022 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:**
Y Cynghorwyr Eiddwen Merritt (Cadair), Wyn Jones, Gerallt Davies, Wyn Evans a Ruby Williams.

**Hefyd yn bresennol:**
Ein Cynghorydd Sirol Marc Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:**
Cynghorwyr Carys Morgan, Garym Roberts, Jocelyn Andrew, Wyn Evans a Barry Owen.

**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Mawrth a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**
Dim.

**Mater cynllunio:**
Dim.

**Trefniadau'r gino blynyddol:**
Penderfynwyd i gael ein cino flynyddol yn y Moody Cow ar yr 20fed o Fai am 7.30. Gofynwyd i'r clerc wneud y trefniadau.

**Unrhyw Fater Arall:**
Soniodd y clerc ei bod wedi derbyn ebost neithiwr oddiwrth cymuned Derwen Gam yn gofyn a allwn ystyried gosod golau stryd ychwanegol yn y pentref wrth ymyl y cartrefi newydd sydd wedi'u hadeiladu ar y ffordd allan o'r pentref i gyfeiriad Neuadd-lwyd. Dywedodd ein Cynghorydd Sirol Marc Davies ei fod yn mynd i gysylltu a'r adran berthnasol i weld beth y gallen wneud.

Derbyniwyd lythyr oddiwrth un o drigolion Henfynyw yn gofyn i'r safle bws gael ei symud o ger yr Eglwys Blwyf yn Henfynyw i'r gilfan yn groes y ffordd. Byddai hyn yn ei gwneud yn lawer fwy diogel i'r teithwyr achos mae llawer ohonynt yn blant, henoed ac hefyd bobl mewn cadair olwyn. Gofynwyd i'r clerc ysgrifennu i'r preswylydd i ddweud fod y mater yn cael ei ymchwilio ac y byddwn yn ei gefnogi yn unfrydol.

Hefyd, cafwyd wybodaeth fod ein yswiriant yn ddyledus erbyn 01/06/22, penderfynwyd i gael dyfyniad arall cyn symud ymlaen gyda'r un presennol.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45.

Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher y 11fed o Fai.